**CYNGOR CYMUNED YSTRAD MEURIG COMMUNITY COUNCIL**

Cofnodion cyfarfod Nos Lun, 23 Mai 2022 yng Nghanolfan Edward Richard

**Yn bresennol / *Present*:** Mair Humphreys, Sarah Jones, David M. Jones, Thomas Jones, Tomos Jones, Daniel Bailey a Wyn Evans.

**Ymddiheurio / *Apologies*:** Siarl Owen

Derbyniwyd cofnodion 13 Ionawr 2022 fel rhai cywir./ Minutes of meeting held 13 January 2022 were accepted as a correct record.

Croesawodd y Cadeirydd David M. Jones bawb i'r cyfarfod. Estynwyd croeso cynnes i Daniel Bailey a oedd newydd ei ethol yn Gynghorydd Cymuned. Llongyfarchwyd Wyn Evans ar gael ei ethold yn Gynghorydd Sirol dros ward Lledrod, dymunwyd yn dda i'r ddau yn ei swyddi newydd. Diolchwyd hefyd i'n Cynghorydd Sirol blaenorol Ifan Davies am ei waith dros nifer helaeth o flynyddoedd ac i ddymuno'n dda iddo fel Cynghorydd Sirol Ward Ystrad Fflur a Thregaron.

Ar gychwyn y cyfarfod bu i'r Cynghorwyr dderbyn hyfforddiant gan y Clerc ar y Côd Ymddygiad cyn iddynt arwyddo'r ffurflenni derbyn swydd.

**Materion yn codi o gofnodion 13 Ionawr 2022**

1. **Cyflwr Heolydd** – adroddodd y Clerc nad oedd unrhyw ohebiaeth pellach wedi ei dderbyn o'r Cygnor Sir am gyflwr yr heolydd. Yn anffodus, roedd sefyllfa Covid-19 wedi bod yn rhwystr ond hefyd yr wythnosau diwethaf oherwydd yr ymgyrch etholiadol. Cytunwyd felly, bod y Clerc a Wyn Evans yn gohebu ymhellach efo'r Cyngor Sir.

   Nodwyd hefyd bod coed yn tyfu allan i'r heol yn Rhydymaen – Hollies ar heol Tynreithin, ac felly bod angen codi hyn hefyd efo'r Cyngor Sir.

**Gohebiaeth**

1. Barcalys 29/04/2022 = £1,476.54.
2. Praesept 2022/2023 – derbyniwyd cadarnhad o'r taliadau y byddai'r Cyngor Sir yn ei dalu o ran y Praesept, taliad cyntaf o £705.25 wedi ei dderbyn ar 30 Ebrill 2022.
3. Western Power Distribution – derbyniwyd taliad o £15.22
4. Ysiwriant Blynyddol BHIB - £352.59 – cytunwyd i dalu yn unfrydol.
5. Archwiliad Blynyddol 2019/20 a 2020/21 – derbyniwyd cadarnhad gan Archwilio Cymru bod y cyfrifon wedi ei archwilio ar gyfer y blynyddoedd uchod a'i cael yn gywir.
6. Jiwbili y Frenhines 2/3 Mehefin 2022 – yn dilyn derbyn cais gan Canolfan Edward Richard am gyfraniad at ddathliadau'r Jiwbili cytunwyd i gyfrannu £150.
7. Cylch yr Iaith – derbyniwyd ebost gan Cylch yr Iaith yn pryderu am warchodeth statudol i enwau lleoedd tirweddol Cymraeg nac enwau tai Cymraeg, cytunwyd i ysgrifennu at Jeremy Miles yn nodi pwysigrwydd cadw a gwarchod yr enwau hyn i'r oesoedd a ddel.
8. CSC – Cais Cynllunio A220052 – newid defnydd o adeiladau allanol yn Swydd, Swyddffynnon – dim gwrthwynebaid.

9. CSC – cais gan y Cyngor Sir i gael cynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned i eistedd ar Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor Sir – dim enwebiad.
10. Atgywieio'r meinciau – cytunwyd bod angen atgyweirio'r meinciau yn y tri pentref. Rhagwelir bod hyn yn mynd i gostio tua £75 y fainc. Cytunwyd bod y Cyng. D M Jones yn gwirio'r pris ac adrodd yn ol i'r Clerc.
11. Trafodwyd y sefyllfa darn tir rhwng Lane Villa a'r afon ger y Maes Chwarae yn Swyddffynnon. Roedd aelod o'r cyhoedd wedi tynnu sylw at y tyfiant a oedd yn y darn hyn o dir a hawliau oedd yn sefyll. Cytunwyd bod y Cynghorydd D. M. Jones yn siarad a'r perchnogion perthnasol i geisio datrysiad.
12. Cytunwyd bod y Clerc i wneud ymholaidau efo'r Gofrestrfa Dir am eiddo Ffynnon y Pentref.
13. Cadarnhwyd mae'r Ysgol oedd perchen y darn tir triongl y tu o i'r Gof Golofn, ffensiwyd y darn hyn i ffwrdd gan yr Ysgol rhag i'r plant gael niwed ar y railings.

Diolchodd Wyn Evans i bawb am ei cefnogaeth yn ystod ei ymgyrch etholiadol. Adroddodd mae Plaid Cymru oedd a'r nifer fwyaf o seddi. Bydd ef yn eistedd ar 5 bwyllgor o fewn y Cyngor Sir. Adroddodd y bydd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir ar 27ain Mai a bydd Ifan Davies yn caei ei ethol yn Gadeirydd.

Cyfarfod Nesaf – Cyfarfod Blynyddol – 21 Mehefin 2022 yn Swyddffynnon am 8.00 o'r gloch.

The Chair, Councillor David M. Jones welcomed all to the meeting. A special welcome was extended to our new Community Councillor Daniel Bailey. Congratulations was also in had to Councillor Wynn Evans who had been appointed the incoming County Councillor for Lledrod Ward, both were wished well in their new roles. Thanks was also given to Councillor Ifan Davies for his work over a number of years and to wish him well as the new County Councillor for Ystrad Fflur and Tregaron Ward.

At the beginning of the meeting the Council received the Code of Conduct training by the Clerk prior to signing the declaration of accepting post forms.

**Minutes arising from 13 January 2022 meeting**

1. **Condition of Roads -** the Clerk reported that no further correspondence had been received from the County Council in relation to condition of roads. Unfortunately, the Covid-19 situation had been a problem but also the last few weeks due to the election campaign. It was agreed that the Clerk and Wyn Evans would correspond further with the County Council.

   It was also noted that overgrown trees were causing a problem on the Tynreithin road, near to Rhydymaen – The Hollies, therefore, it was agreed to raise this issue with the County Council as well.

**Correspondence**

1. Barclays 29/04/2022 = £1,476.54.
2. Precept 2022/2023 – confirmation was received that the County Council would be paying the precept in 3 parts, the first sum of £705.25 had been received on 30 April 2022.
2. Western Power Distribution – payment of £15.22 had been received.
3. BHIB Insurance - £352.59 – it was agreed to pay.
4. Audit for 2019/20 and 2020/21 – the finances for both years had been audited and found correct.
5. Queen Jubilee 2 and 3 June 2022 – following a request by Canolfan Edward Richard it was agreed to contribute a sum of £150 towards to Jubilee celebrations.
6. Cylch yr Iaith – an email was received from Cylch yr Iaith in relation to safeguarding of welsh field names and house names, it was agreed to write to Jeremy Miles noting the importance of keeping and safeguarding such names for future reference.
7. CCC – Planning Application A220052 – change of use of external building at Swydd, Swyddffynnon – no objection.
8. CCC – a request to have member of the Community Council to sit on the Ethics and Standard Committee – no nomination.
9. Refurbishment of benches – it was agreed that the benches in the three villages needed to be maintained. It is anticipated that this will cost around £75 per bench. It was agreed that Councillor D. M. Jones would ask for an estimate and report back to the Clerk.
10. A discussion was held in relation to the parcel of land between Lane Villa and the river by the Playing Field in Swyddffynnon. A member of the public had drawn attention to the mass growth on this part of land and what rights were in place. It was agreed that Councillor D. M. Jones would speak to the appropriate owners and come to a settlement.

11. It was agreed for the Clerk to make enquiries to the Land Registry in relation to the ownership of the “ffynnon” at Swyddffynnon.
12. It was agreed that the School was the owner of the triangle parcel of land behind the War Memorial, this was fenced off with the school to keep the children away from the railings.
13. It was confirmed that the School was the owner of the triangle parcel of land behind the War Memorial, this had been fenced off with the school to keep the children from the railings.

Wyn Evans thanked all for their support during his election campaign. He reported that Plaid Cymru had the majority of seats. He will sit on 5 committee’s within the County Council. He reported that the AGM would be held on 27th May when Ifan Davies will be elected Chairman.

**Next meeting** – AGM 21 June 2022 at Swyddffynnon 8.00 pm.